# ADRAN 50 DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD

# 1991

# TRWYDDED GWAITH STRYD

# PECYN CAIS

**Cyngor Abertawe,**
**Priffyrdd a Thrafnidiaeth,**
**Gwaith Stryd,**
**Ystâd Ddiwydiannol Players,**
**Clydach,**
**Abertawe,**
**SA6 5BJ**

**Cysylltiadau**

**Rheolwr Gwaith Stryd – Dean Howard – 01792 841675**

**Technegydd Gwaith Stryd – Donna Price – 01792 841677**
**Donna.price@swansea.gov.uk**

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r uchod.
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
Yn Ddilys: 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026 Cod GL: 01 261 26044 800092 81325 260004

**Cynnwys**

## Nodiadau Canllaw i gynorthwyo gyda chwblhau'r pecyn cais.


**Rhan 1** Deddf Rheoli Traffig 2004

**Rhan 2** Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr - Nodiadau

**Rhan 3** Cais am Drwydded Gwaith Stryd – Amodau Safonol

**Rhan 4** Amodau Safonol

**Rhan 5** Hysbysiad Gwaith Ymlaen Llaw

**Rhan 6** Cofrestru Gwaith

**Rhan 7** Ymholiadau Offer Ymgymerwyr Statudol


## Ffurflenni i'w cwblhau a'u cyflwyno.

**(Ffurflen SWL1)** Ffurflen Gais am Drwydded Gwaith Stryd
(I gynnwys llungopïau o'r ddwy ochr o gardiau Cofrestr Cymwysterau Gwaith Stryd (SWQR) Goruchwylwyr a Gweithredwyr, tystysgrif yswiriant a chymeradwyaeth cysylltu ar gyfer gosod offer carthffosiaeth newydd)

**(Ffurflen SWL2)** Hysbysiad Ymlaen Llaw o Waith

**(Ffurflen SWL3)** Cofrestru Gwaith
(Llungopi o docynnau o’r chwarel ar gyfer unrhyw agreg/deunyddiau (*agregate/materials*) a ddefnyddir yn ystod y gwaith adfer)

**(SWL4)** Ymholiadau ar gyfer Ymgymerwyr Statudol - peiriannau (*plant*)

**ADRAN 50 - PECYN CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD**

**DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991**

## RHAN 1
## DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Traffig yn 2004 i fynd i'r afael â thagfeydd a thrafferth ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau traffig lleol i sicrhau bod traffig yn symud yn rhwydd ar eu rhwydwaith ffyrdd a'r rhwydweithiau o awdurdodau cyfagos. Mae'r Ddeddf yn rhoi arfau ychwanegol i awdurdodau rheoli polisïau parcio, gorfodaeth traffig sy'n symud a chydlynu **yr holl weithgareddau ar y rhwydwaith yn well, gan gynnwys gwaith stryd**.

Bydd y Ddeddf hon yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008 a bydd yn newid y cyfnodau hysbysu sy'n ofynnol ar gyfer gwaith stryd.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan yr Adran Drafnidiaeth
http://www.dft.gov.uk/pgr/roads/tpm/tmaportal/

## Rhan 2
## CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR - NODIADAU

Rhaid i unrhyw berson (ac eithrio Ymgymerwr Statudol) sy'n dymuno gosod offer yn y stryd, ei gadw ac ar ôl hynny ei archwilio, ei gynnal, ei addasu, ei atgyweirio a'i newid fod â Thrwydded Gwaith Stryd. Bydd y drwydded hon yn cael ei rhoi i berchennog yr offer.

Cynghorir ymgeiswyr nad ydyn nhw'n gyfarwydd â gofynion y ddeddfwriaeth hon i benodi contractwr sydd â'r wybodaeth a'r achrediad priodol i helpu i gwblhau'r cais. Rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan weithredwr achrededig a'i oruchwylio gan oruchwyliwr achrededig.

Rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn **TRI MIS** o ddyddiad caniatáu'r drwydded. Rhaid cwblhau adferiad parhaol o fewn **CHWE (6) MIS** o ddyddiad cwblhau unrhyw adferiad dros dro. Os na all y gwaith ddechrau o fewn tri mis, bydd yn unol â disgresiwn yr Awdurdod Stryd a fydd y drwydded yn cael ei thynnu'n ôl (a bydd yr holl arian yn cael ei ad-dalu, heblaw am y ffi weinyddol) neu a fydd trwydded newydd yn cael ei rhoi ar sail y cais gwreiddiol gyda dyddiadau gwaith newydd.

Rhaid i geisiadau gael eu **derbyn** o leiaf **UN MIS** cyn dechrau'r gwaith arfaethedig, wedi'i lofnodi gan berchennog yr offer presennol neu arfaethedig. Mae hyn er mwyn caniatáu i Gyngor Abertawe (Awdurdod y Stryd) gyflawni ei ddyletswydd. Fodd bynnag, os yw'r gwaith yn dod o fewn y categori Gwaith Mawr mae angen rhybudd o **DRI MIS**. **D.S. cyfnodau rhybudd lleiaf yw'r rhain ac efallai y bydd angen mwy o amser ar Awdurdod y Stryd i brosesu'r cais mewn rhai amgylchiadau.**

**Os oes angen Cau y Ffordd bydd rhaid derbyn y ddau gais o leiaf TRI MIS cyn dechrau'r gwaith arfaethedig.**

Cyn rhoi Trwydded Gwaith Stryd i osod offer newydd, rhaid i'r Awdurdod Stryd roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i'r awdurdodau statudol a phartïon eraill sydd â diddordeb.

## Rhan 3

### CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD - AMODAU SAFONOL

Rhaid derbyn y canlynol neu gellir gohirio rhoi'r drwydded.

a) **Ffurflen wedi'i chwblhau (SWL1)** (Cais am Drwydded Gwaith Stryd);
b) **Ffi Trwydded £750** hyd at *200 metr, taliad ymlaen llaw (sieciau yn daladwy i Ddinas a Sir Abertawe**.**)
c) **Ffi Trwydded £1,500** hyd at *200 metr, taliad ymlaen llaw i wasanaethu 6 neu fwy o dai annedd a datblygiad preswyl, fflatiau/fflatiau deulawr (sieciau yn daladwy i Ddinas a Sir Abertawe**.**)

*Bydd pob hyd 200 metr wedi hynny yn cynnwys £150 ychwanegol.

Dadansoddiad fel a ganlyn :-

Rhaid i'r trwyddedai dalu'r ffi weinyddol berthnasol i'r Awdurdod wrth gyflwyno'r cais mewn perthynas â threuliau Cyfreithiol a threuliau eraill gan yr Awdurdod mewn cysylltiad â rhoi'r drwydded, ffi gyfalafu o £130 yn lle tâl blynyddol a swm o £50.00 neu swm o'r fath sy'n swm y cytunwyd arno'n genedlaethol, ar gyfer pob archwiliad a gynhelir gan yr Awdurdod. £150 am bob uned archwilio hyd at bob 200m (£50 fesul archwiliad, tri yn ofynnol fesul uned.

c) **Cynllun graddfa** (i safon Arolwg Ordnans) 1:1250 neu fwy o'r lleoliad arfaethedig a dyfnder yr offer perthnasol wedi'i farcio gan linell goch doredig a chyfeirnod grid ar gyfer y safle cloddio;
d) **Tystiolaeth o Ganiatâd i Gysylltu â'r Rhwydwaith** (Ar gyfer offer newydd).
e) Os yw'r gwaith yn fwy na 200m o hyd bydd ffioedd ychwanegol yn berthnasol. Bydd y rhain yn cael eu cytuno gyda'r ymgeisydd a'r Rheolwr Gwaith Stryd.

Rhaid i'r canlynol gael eu cyflwyno yn y lle cyntaf (cedwir copïau ar ffeil ar gyfer unrhyw gais yn y dyfodol, tra'n parhau'n ddilys)

a) **Tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** Rhaid yswirio hyd at o leiaf **£10m**;

b) **Tystiolaeth o Achrediad Gwaith Stryd** (Copi o'r ddwy ochr o gardiau SWQR y Goruchwyliwr a'r Gweithredwyr). Rhaid i oruchwyliwr achrededig oruchwylio'r gwaith, a rhaid i o leiaf un gweithredwr achrededig fod ar y safle bob amser pan fydd y gwaith yn cymryd lle. **D.S. Ni all hwn fod yr un person**.

Cysylltwch â'r Rheolwr Gwaith Stryd yng Nghyngor Abertawe, Gwaith Stryd, Ystâd Ddiwydiannol Players, Clydach, Abertawe, i gael cymorth os oes angen Goleuadau Traffig neu Gau y Ffordd. Y Rhif ffôn ydy: 01792 841677/841675

Mae'r diffiniad o offer yn cynnwys draeniau, ceblau, dwythellau (*ducts*), pibellau carthffosiaeth, pibellau dŵr a nwy ac yn y blaen. Mae hefyd yn cynnwys o dan, dros, ar draws, ar hyd, neu ar y stryd.

Bydd Trwydded Gwaith Stryd i osod offer neu roi ganiatâd i weithio ar offer presennol ar y briffordd yn cael ei roi i berchennog/perchnogion offer neu ei Olynydd mewn Teitl (*Successor in Title*) yn unig. Dylai perchnogion nodi eu dyletswydd statudol i sicrhau bod yr offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol bob amser.

Mae'r person y rhoddir Trwydded Gwaith Stryd iddo yn dod yn Ymgymerwr at ddibenion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd (NRWSA) 1991, ac felly mae ganddo'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a osodir gan y Ddeddf a Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer Eilaidd cysylltiedig.

Mae adran 74 o Ddeddf 1991 yn golygu y gall deiliad y Drwydded fod yn atebol i daliadau a godir o dan yr adran hon am feddiannaeth afresymol o hir ar y briffordd, neu os na chaiff yr hysbysiadau cywir eu cyflwyno mewn perthynas â'r adran hon.

Sylwch y gellir rhoi'r drwydded hon i ymgeisydd a fydd yn berchen ar y cyfarpar ac yn gyfrifol amdano yn unig. Ni all hyn fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle bydd trydydd parti yn berchen ar ac yn cynnal y cyfarpar sydd wedi'i osod.

## Rhan 4

### <u>AMODAU SAFONOL</u>

### <u>Trwydded Amodau Gwaith Stryd sy'n Ymwneud â Lleoli, Cadw a Chynnal a Chadw Offer yn y Stryd</u>

**<u>(S50 ac Atodlen 3 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991</u>)**

1. Ni fydd y Trwyddedai yn gwneud unrhyw waith cloddio neu waith arall ar y briffordd, ac eithrio yn unol â chynllun, i'w gyflwyno gyda'r cais hwn, a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan y Trwyddedai neu asiant sydd wedi'i gymeradwyo gan, ac sy'n cael ei fonitro gan yr Awdurdod Priffyrdd. Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 yn nodi meini prawf y cymwysterau ar gyfer unigolion sy'n cloddio ar y briffordd sy'n ofynnol gan Adran 67 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, 1991. At ddibenion cyflawni'r gwaith, bydd y Trwyddedai neu'r asiant yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Yn benodol, bydd y goruchwyliwr a'r gweithredwr wedi'u hyfforddi a'u hachredu i ofynion y Codau Ymarfer. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o achrediad o'r fath gyda'r cais hwn.

2. Bydd y Trwyddedai yn indemnio Cyngor Abertawe fel yr Awdurdod Priffyrdd mewn perthynas ag unrhyw gamau hawlio, treuliau neu achosion trydydd parti mewn perthynas ag anaf, difrod neu golled a allai godi o'i waith ar y briffordd. Bydd y Trwyddedai yn rhoi ar waith yswiriant sy'n digolledu'r Trwyddedai a'r Cyngor, drwy gydol cyfnod y gwaith a hyd nes y bydd y Cyngor yn gyfrifol unwaith eto am gynnal a chadw'r briffordd yn unol ag Amod 14. Bydd yswiriant o'r fath yn rhoi iawndal heb fod

yn llai na £10 miliwn mewn perthynas â phob digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau a achosir gan, neu y gellir eu priodoli i, unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at hawliad. Caiff copi o'r dystysgrif a'r polisi yswiriant ei gynnwys gyda'r cais hwn.

3. Bydd y Trwyddedai yn rheoleiddio'r gwaith er mwyn lleihau'r rhwystr i gerbydau a cherddwyr a bydd yn diogelu'r gwaith yn unol â Phennod 8 Llawlyfr Arwyddion Traffig 2006 a gyhoeddwyd gan y Llyfrfa (TSO) a Chod Ymarfer Diogelwch mewn Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd 2001 sy'n rhoi canllawiau penodol ar arwyddion, goleuadau a mesurau diogelu gwaith dros dro ar y Briffordd, fel sy'n ofynnol gan Adran 65 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Caiff ardal y gwaith ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr glân a thaclus drwy gydol y gwaith.

4. Ni fydd y Trwyddedai yn amharu ar unrhyw ddraen, ceuffos, gyli, pont, wal neu seilwaith arall heb ganiatâd penodol yr Awdurdod Priffyrdd.

5. Ac eithrio yn unol â'r drwydded hon, ni chaiff unrhyw ran o'r briffordd ei chau **AR UNRHYW ADEG**, heb ganiatâd yr Awdurdod Priffyrdd.

6. Nid yw cyflwyno trwydded i gloddio'r briffordd dros dro yn awdurdodi'r Trwyddedai i amharu ar unrhyw offer sydd eisoes ar y stryd. Rhaid cynnal mynediad at unrhyw offer ar y briffordd pob amser.

7. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cyflwyno hysbysiadau i'r Ymgymerwyr Statudol yn unol â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ar ran yr ymgeisydd. Oni bai am achosion o argyfwng, rhaid i hysbysiadau o'r fath gael eu creu o leiaf 25 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwaith. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gyflawni unrhyw waith sy'n ofynnol gan Ymgymerwr Statudol yn eu hymateb i hysbysiad, neu wedi hynny i ddiogelu offer. Cyn dechrau unrhyw waith, bydd yr ymgeisydd yn penderfynu ar union leoliad offer yr Ymgymerwyr Statudol (SWL4). Bydd yr ymgeisydd yn caniatáu ar gyfer y broses hysbysu wrth raglennu ei waith.

8. Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r gwaith (gan gynnwys gan Ymgymerwyr Statudol), bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cyflwyno trwydded. (Ni fydd y gwaith yn dechrau nes bod y drwydded hon yn cael ei chymeradwyo a'i chyflwyno). Bydd y drwydded yn ddilys am dri mis o'r dyddiad cyhoeddi.

9. Codir tâl ar yr ymgeisydd am unrhyw waith y mae angen i'r Awdurdod Priffyrdd ei wnued o ganlyniad i'r ffaith bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn atebol am unrhyw archwiliadau pellach a all fod eu hangen yn yr un modd ag y darperir o dan Adran 72 (2) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

10. Os bydd y gwaith yn cael ei ganslo ar ôl i'r ffurflen gais gael ei chyflwyno, codir ffi weinyddol ar yr ymgeisydd i dalu am gostau gweinyddol.

11. Caiff gwaith adfer ei wneud yn unol â Chod Ymarfer perthnasol (Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd Ail Argraffiad 2006) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd. Bydd unrhyw gloddiad yn cael ei adfer dros dro o leiaf gyda bitwmen macadam cyn symud unrhyw arwyddion a rhwystrau. Ni ddylid ailagor unrhyw ffos i ddefnyddwyr y briffordd heb osod o leiaf un haen o fitwmen dros dro, sydd yr un lefel â 'r briffordd gyfagos. Ni chaniateir calchfaen ar yr haen uchaf. Bydd unrhyw adferiad

dros dro yn cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Priffyrdd.

12. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd yr ardal yn cael ei gadael mewn cyflwr glân a thaclus ac i foddhad yr Awdurdod Priffyrdd.

13. O fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y Trwyddedai yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Priffyrdd. Gwneir hyn trwy'r ffurflen '**Cofrestru Gwaith**' **(SWL3 )** sydd yn y pecyn trwydded.

14. Fel arfer, bydd y dyddiad a'r amser pan fydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ailddechrau bod yn gyfrifol am gynnal a chadw gwaith ar y briffodd, ar wahân i'r offer, yn ddwy flynedd (tair blynedd ar gyfer gwaith cloddio sy'n fwy na 1.5 metr) o'r dyddiad y cwblheir y gwaith. Nes y bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r gwaith, bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am unrhyw hawliadau sy'n deillio o'r gwaith neu unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol a chostau cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn penderfynu pa waith sydd ei angen.

15. Ni ddylid gwneud unrhyw waith ar y briffordd cyn i drwydded gael ei rhoi.

16. Gall y Rheolwr Gwaith Stryd neu ei gynrychiolydd ychwanegu amodau i'r drwydded yn ôl yr angen.

## Rhan 5

### HYSBYSIAD GWAITH YMLAEN LLAW

### Gwaith Mawr

Gwaith y mae angen Cau'r Ffordd ar ei gyfer neu waith y disgwylir iddo barhau am o leiaf 10 diwrnod gwaith. Rhaid cyflwyno cais **TRI MIS** cyn y dyddiad o ddechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai rhoi rhybudd o **DDEG DIWRNOD GWAITH** o'r dyddiad y bydd y gwaith arfaethedig yn dechrau i'r Awdurdod Stryd trwy ddefnyddio Ffurflen **(SWL2).**

### Gwaith Canolig (*Standard Works)*

Gwaith y disgwylir iddo barhau am ddim mwy na 10 diwrnod gwaith. Rhaid cyflwyno cais **UN MIS** cyn dyddiad dechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai roi rhybudd o **DDEG DIWRNOD GWAITH** o'r dyddiad cychwyn arfaethedig i'r Awdurdod Stryd trwy ddefnyddio Ffurflen **(SWL2).**

### Mân Waith

Gwaith y disgwylir iddo barhau dim mwy na 3 diwrnod gwaith. Rhaid cyflwyno cais **UN MIS** cyn dyddiad dechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai roi rhybudd o **DRI DIWRNOD GWAITH** o'r dyddiad dechrau arfaethedig i'r Awdurdod Stryd trwy ddefnyddio Ffurflen **(SWL2).**

## Gwaith Brys

**Gwaith a allai achosi niwed difrifol i unigolyn neu eiddo a rhaid ei gwblhau cyn gynted â phosibl.**

Rhaid derbyn y canlynol.

a. **Cynllun graddfa** (i safon Arolwg Ordnans) 1:1250 o'r lleoliad arfaethedig a dyfnder yr offer perthnasol wedi'i farcio gan linell goch doredig gyda chyfeirnod grid ar gyfer y safle cloddio;
b. **Tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** Rhaid yswirio hyd at o leiaf **£10m**;
**c.** **Tystiolaeth o Achrediad Gwaith Stryd** (Copi o'r ddwy ochr o gardiau SWQR y Goruchwyliwr a'r Gweithredwyr). Rhaid i oruchwyliwr achredededig oruchwylio'r gwaith, a rhaid i o leiaf un gweithredwr achredededig fod ar y safle bob amser pan fo'r gwaith yn mynd yn ei flaen. **D.S. Ni all hwn fod yr un person.**
**d.** **Ceisiadau am wasanaethau rheoli traffig, os yw'n berthnasol.**
**e.** **Unrhyw wybodaeth resymol arall y gallai'r awdurdod stryd ofyn amdani.**

Yn achos **Gwaith Brys** rhaid i weddill y cais gael ei brosesu mewn modd **ÔL-WEITHREDOL.**

## Gwaith Adferol

Gwaith i droi safle o fod yn safle dros dro i fod yn un parhaol neu i gywiro gwall. Bydd angen mwy o rybudd ymlaen llaw wrth wneud gwaith adferol.

• Bydd angen rhybudd o **DDEG DIWRNOD** ar gyfer mân waith (Llai na thri diwrnod o hyd).

• Bydd angen rhybudd o **DRI MIS** ar gyfer gwaith mawr.

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai'r Awdurdod Stryd osod amodau arbennig a rhaid cydymffurfio'n gaeth â nhw:-
a) er budd diogelwch;
b) er mwyn lleihau'r anghyfleustra i bobl sy'n defnyddio'r stryd, gan ystyried pobl ag anabledd yn benodol;
c) ar gyfer Strydoedd sy'n Sensitif o ran Traffig, Strydoedd ag Anawsterau Peirianneg Arbennig a Strydoedd Gwarchodedig ac i ddiogelu strwythur y stryd a chywirdeb yr offer sydd arni.

Rhaid i'r Trwyddedai ganiatáu i'r Awdurdod y Stryd fonitro perfformiad ei gontractwr yn ystod pob cam o'r gwaith stryd.

Y camau hyn yw:-

a) Pan fo'r gwaith yn cael ei gwblhau;
(b) Yn ystod y cyfnod o chwe (6) mis gan ddechrau gyda dydd cwblhau'r adferiad parhaol neu dros dro;
c) Yn ystod y cyfnod o dri mis yn union cyn diwedd y cyfnod gwarantu

(Bydd y cyfnod hwn am 2 flynedd o ddyddiad y gwaith adfer parhaol am gloddiadau hyd at 1.5m o ddyfnder a 3 blynedd am rai dyfnach).

## Rhan 6

**COFRESTRU GWAITH**

Rhaid i'r Trwyddedai lenwi a chyflwyno Ffurflen **(SWL3)** gan roi manylion am unrhyw waith adfer i'r Awdurdod Gwaith Stryd ymhen **DEG DIWRNOD GWAITH** o gwblhau'r gwaith a chlirio'r safle. Dylai gynnwys dyluniad manwl **ar Raddfa 1/1250** yn dangos dyfnder gwirioneddol yr offer, a'i leoliadau wedi'i fesur yn erbyn gwrthrychau/strwythurau sefydlog hefyd gael ei gyflwyno (**Rhaid gwneud adferiadau dros dro yn barhaol o fewn 6 mis** ac yn ystod yr amser hwnnw rhaid iddyn nhw berfformio i'r un safonau ag adferiad parhaol).

## Rhan 7

**Ymholiadau Offer Ymgymerwyr Statudol**

Er mwyn cydymffurfio ag Adran 69, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, rhaid cysylltu â'r holl Ymgymerwyr Statudol i nodi a fydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar eu hoffer. **Bydd yr ymgeisydd yn ymgymryd â'r gwaith o wneud hyn**. Mae copïau o ffurflenni SWL4 sydd wedi'u cynnwys ar gyfer y prif gwmnïau cyfleustodau sydd ag offer wedi'u lleoli ar draws Cyngor Abertawe. Dylai'r ymgeisydd gysylltu ag unrhyw gyfleustodau neu awdurdodau perthnasol eraill y mae'n ymwybodol bod ganddyn nhw offer yn y stryd.

| | | |
|---|---|---|
| **SWL 1**<br>***(At Ddefnydd Swyddfa'n Unig)*** | **CYNGOR ABERTAWE**<br>**CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD** | **Ffurflen SWL1** |

**Adran 1. Perchennog yr Offer (*Apparatus*)**

Enw:____________________________________________

Cyfeiriad:________________________________________

Cod Post:__________Ffôn Gwaith_________Ffôn Cartref_________

Cyfeiriad e-bost:____________Ffôn Symudol ____________

**Adran 2. Union Leoliad y Gwaith Arfaethedig** (Rhaid cyflwyno cynllun manwl gyda'r ffurflen. Bydd angen **Cynllun sy'n dangos graddfa** o safon yr Arolwg Ordnans 1:1250)

Enw/Rhif yr Eiddo:______________________ Ffordd / Stryd:______________________

Dinas/Tref/Pentref______________________: Cod Post:__________________

Cyfeirnodau Grid:________________________

(Ticiwch y bocsys perthnasol)

Gosod Offer Newydd/Gweithio ar yr Offer Presennol/Ôl-weithredol ☐ ☐

**Categori** Mawr ☐ s ☐ ân Waith ☐ Gwaith Safonol ☐

**Oriau Gwaith Arfaethedig** Yn ystod y dydd ☐ Gyda'r Nos ☐ Cyfyngedig ☐

**Dyfnder cyfartalog y cloddio Hyd at 1.5m** ☐ Dros 1.5m ☐ Dim Cloddio ☐

**Rheoli Traffig Arfaethedig Cau Ffordd *.** Signalau Traffig Dros Dro * Byrddau Stopio/Mynd
Llif Blaenoriaeth Dim

Gweler y nodiadau canllaw. Bydd angen gwneud cais am y rhain ar wahân

Mae'r gwaith ar: Llain ymyl ☐ Troedffordd ☐ Ffordd ☐ Pob un ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn disgwyliedig | | Dyddiad cwblhau disgwyliedig | |

Disgrifiad o'r gwaith (gan gynnwys hyd a lled y gwaith sy'n cael ei amcangyfrifo):

Pa ddeunydd fydd yn cael ei ddefnyddio i Amgylchynu'r Offer (tywod, llwch cerrig ac ati.)
________________________________

**Adran 3. Manylion person neu gwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith**

Enw:____________________________________________________________

Cyfeiriad:___________________________________________________________

____________________________________ Cod Post:___________________________

Ffôn:_________________________ Ffacs:______________________________

Cyfeiriad e-bost:______________Ffôn Symudol ______________________

**Ffurflen SWL1 (parhad)**

**Adran 3 Parhad:**

Enw Gweithredwr achrededig:___________________________Rhif SWQR ____________ ______

Enw'r Goruchwyliwr Achrededig:_________________________Rhif SWQR _____________

Mae angen llungopi o'r achrediad ar gyfer Gwaith Stryd

**MANYLION CYSWLLT BRYS (rhif cyswllt 24 awr)**

Enw:__________________________________________________________________

Ffôn: _________________________________________

**Adran 4. Yswiriant**

Rhaid darparu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus at leiafswm
o £10 miliwn hyd at gwblhau'r adferiad parhaol.

Mae angen llungopi o'r dystysgrif yswiriant

Enw'r Cwmni: ________________________________________________________________

Cyfeiriad:
___________________________________________________________________________

Rhif Ffôn:__________________Rhif Polisi:_______________Dyddiad Dod i ben: _______________



Yn Ddilys: 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026
Côd GL: 01 261 26044 800092 81325 260004

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Adran 5. Datganiad gan berchennog yr offer**

Rwy'n cadarnhau bod y manylion uchod yn gywir, ac chydnabyddaf fod rhaid cwblhau'r gwaith y cyfeirir ato uchod yn unol â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, deddfwriaeth gysylltiedig a chodau ymarfer, ynghyd ag unrhyw amodau eraill a osodir gan yr Awdurdod Stryd yn y Drwydded berthnasol, sy'n cynnwys fy nyletswydd i sicrhau bod y gwaith yn cael ei oruchwylio gan oruchwyliwr achrededig.

Rwy'n cadarnhau bod pob cam rhesymol ymarferol wedi'i gymryd i sicrhau y cysylltwyd â pherchnogion offer eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaith hwn a lle bo angen, nodi lleoliad y cyfarpar. D.S. Argymhellir nad yw canlyniadau unrhyw ymholiad yn hŷn na mis.

Rwy'n cydnabod yr angen statudol i mi dalu'r ffioedd archwilio penodol a osodir gan yr Awdurdod Stryd, gan gynnwys unrhyw ffioedd archwilio diffygion a chost unrhyw waith adfer angenrheidiol a wneir gan yr Awdurdod Stryd yn ystod y cyfnod gwarant.
Rwyf hefyd yn cydnabod bod y drwydded yn cael ei rhoi ar yr amod y byddaf yn indemnio'r Awdurdod Stryd yn erbyn unrhyw hawliad mewn perthynas ag anaf, difrod neu golled sy'n deillio o:

(a) Gosod neu bresenoldeb offer, y mae'r drwydded yn berthnasol iddo, yn y stryd, neu
(b) Unrhyw unigolyn yn cyflawni unrhyw waith a awdurdodwyd gan y drwydded.

Rwyf hefyd yn cydnabod fy mod wedi darllen a deall y Nodiadau Canllaw a'r Amodau Safonol fel sydd ynghlwm (D.S. gallai amodau penodol pellach gael eu gosod ar adeg rhoi'r drwydded).

Llofnod:__________________________________ Dyddiad: _____________________

(Enw)Mewn Llythrennau Bras:____________________________________

Yn rhinwedd ei swydd fel:
_________________________________________________________

***PWYSIG***

Dylid cyfeirio pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r drwydded hon at:-

**At sylw: Donna Price**
**Cyngor Abertawe,**
**Priffyrdd a Thrafnidiaeth,**
**Gwaith Stryd**
**Ystâd Ddiwydiannol Players,**
**Clydach,**
**Abertawe,**
**SA6 5BJ**

# CYNGOR ABERTAWE

GWAITH STRYD, YSTÂD DDIWYDIANNOL PLAYERS,
CLYDACH, ABERTAWE, SA6 5BJ
*Ffôn: 01792 841677 E-bost: streetworks@swansea.gov.uk*

## DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991

Dylai pob ymgeisydd wneud yn siŵr eu bod wedi amgáu y dogfennau canlynol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran y broses gymeradwyo.

*(Ticiwch os gwelwch yn dda)*

| | |
|---|---|
| Ffurflen Gais (SWL1) | ☐ |
| Ffurflen Hysbysiad Ymlaen Llaw o Waith (SW12) (Rhan N) | ☐ |
| Cofrestru Gwaith (SWL3) (R1) | ☐ |
| Ymgymerwyr Statudol (SWL4) | ☐ |
| Prawf o Yswiriant | ☐ |
| Cynlluniau o'r Cynllun Arfaethedig | ☐ |
| Tâl | ☐ |
| Cynlluniau Offer Ymgymerwyr Statudol eraill | ☐ |
| Cymeradwyaeth Cysylltu (Offer Newydd yn Unig) | ☐ |

# CYNGOR ABERTAWE

## CYFNEWID GWYBODAETH - IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH

**Western Power Distribution** **Ffôn: 02920 535383**
Mapping Response Team
Ystâd Ddiwydiannol Maerdy
Lamby Way Church Village
Rhymni
Caerdydd
CF3 2EQ

**Dŵr Cymru Welsh Water** **Ffôn: 02920 740315**
**At sylw: Gareth Pearce**
Ymholiadau NRSWA Dŵr Cymru Welsh Water
Tîm SAP Time Charging
Linea House
Fortran Drive
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

**Cyngor Abertawe** **Ffôn: 01792 636652**
**At sylw: Sharon Murnieks, Yr Adran Traffig**
Cyfarwyddiaeth Lle
Priffyrdd a Thrafnidiaeth
Y Ganolfan Ddinesig
Oystermouth Road
Abertawe
SA1 3SN
Sharron.murnieks@swansea.gov.uk

**Cyngor Abertawe** **Ffôn: 01792 636079**
**At sylw: Ben George, Yr Adran Drafnidiaeth**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Priffyrdd a Thrafnidiaeth
Y Ganolfan Ddinesig
Penlle'r-gaer
Abertawe
SA4 9GJ
Ben.george@swansea.gov.uk

**Cyngor Abertawe** **Ffôn: 01792 841660**
**At sylw: Chris James**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Priffyrdd a Thrafnidiaeth
Ystâd Ddiwydiannol Players,
Clydach,
Abertawe
SA6 5BJ
Christopher.James2@swansea.gov.uk

**Wales & West Utilities Ltd** **Ffôn: 02920 027 8912**
**Ffacs:0845 072 0852**

Yr Adran Gynllunio, Llawr 1
Wales & West House,
Spooner Close
Celtic Springs
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8FZ
plantprotectionenquiries@wwutilities.co.uk

**British Telecom PLC** **Rhadffôn 100 deialwch cyn i chi ddechrau cloddio**
PP3WW58
Telecom House
Trinity Street
Hanley
Stoke on Trent
ST1 5ND

**Virgin Media (NTL)**
National Plant Enquiries
Units 12 Mayfair Business Park
Broad Lane
Bradford
BD4 8PW
plant.enquiries.team@virginmedia.co.uk

**Cable and Wireless Communications** **Ffôn: 01454 662881**
**Ffacs:01454 663330**
W S Atkins Consultants Ltd
PO Box 290
500 Park Ave
Aztec West
Almondsbury
Bristol
BS32 4RZ
osm.enquiries@atkinsglobal.com

| Rhan N SWL2 | DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 HYSBYSIAD O'R GWAITH GAN GYNNWYS YMATEBION | Cyngor Abertawe |
|---|---|---|

AT:

PWRPAS YR **HYSBYSIAD** HYSBYSIAD DILYNOL

Ymateb yr Awdurdod Stryd Ymatebion Eraill

**Rhif Cyfeirnod** **Rhan** o

**Derbynwyr**
**Rhif Croesgyfeirio** **Rhan** o

**Rhif Cyfeirnod** **Rhan** o

GAN:

**Y cyswllt gwreiddiol**
**Rhif Croesgyfeiriad.** **Rhan** o

**Dyddiad Cyhoeddi:**

**Amser**
(Argyfwng yn Unig)

Dyddiad Disgwyliedig ar gyfer dechrau'r gwaith

Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig

**Cyfnod yr Hysbysiad**

**Hysbysiad/Math o Waith**
(TICIWCH FEL Y BO'N BRIODOL)

MÂN WAITH (GYDA CHLODDIO) 3 DIWRNOD CYN I'R GWAITH DDECHRAU

CANOLIG -10 DIWRNOD O FLAEN LLAW CYN I'R GWAITH DDECHRAU

**MAWR - 3 MIS O FLAEN LLAW CYN I'R GWAITH DDECHRAU**

BRYS: - O FEWN 2 AWR WEDI I'R GWAITH DDECHRAU

MÂN WAITH DIM CLODDIO FEL Y CYTUNWYD GYDA H/A

ADFEROL: I'W DEFNYDDIO YN UNIG A MATH ARALL O HYSBYSIAD

**UNION DDYDDIAD DECHRAU'R GWAITH**

**UNION DDYDDIAD CWBLHAU**

**SEFYLLFA SENSITIF I DRAFFIG** **Ydy** **Nac ydy**

A OES YNA ANHAWSTER PEIRIANNEG ARBENNIG? **Oes** **Na**

**Manylion y Lleoliad**

Enw'r Tŷ/ Rhif: -

Enw'r Stryd: -

Enw'r Ardal Leol: -

Ardal:-

Cod Post: -

**RhCSU**

**DISGRIFIAD O'R GWAITH**

(Gan gynnwys Dulliau Adeiladu a Rheoli Traffig os ydych chi'n gwybod hynny)

Swansea Council

**Unedau**

Yn Ddilys: 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth
Côd GL: 01 261 26044 800092 81325 260004

Ffurflen SWL3

| Rhan R1 SWL3 | DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 COFRESTRU'R GWAITH | Cyngor Abertawe |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AT: | RHAN N WEDI EI HANFON? | IE | NA | |
| | RHAN R2 RHIF O DAFLENNI PARHAD R2 | | | |
| | Rhif Cyfeirnod | Rhan | o | |
| | Derbynwyr Rhif Croesgyfeirio | Rhan | o | |
| GAN: | Rhif Cyfeirnod | Rhan | o | |
| | Cychwynwyr Rhif Croesgyfeirio | Rhan | o | |
| | YDI POB GWAITH AR YR HYSBYSIAD HWN WEDI'I GWBLHAU? | IE | NA | |
| | Os Ie beth ydi Nifer o Unedau Arolygu | | | |

NIFER Y TYLLAU BAR /DRILIAU CRAIDD A GAFODD EU PLYGIO A'R DYDDIAD Y CAWSANT EU PLYGIO

DYDDIAD

DYDDIAD ADFER DROS DRO

DYDDIAD ADFER PARHAOL

**Manylion y Lleoliad**

Enw'r Tŷ/ Rhif: -

Enw'r Stryd: -

Enw'r Ardal Leol: -

Ardal:-

Cod Post: -

RhCSU

**DISGRIFIAD O'R GWAITH**

(Gan gynnwys Dulliau Adeiladu a Rheoli Traffig os ydych chi')